



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Safonau

Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas /
MS Teams

Dydd Iau, 2 Mawrth 2023 am 11.00 am

Yn Bresennol: Mike Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Y Cynghorydd(wyr)
O G James

Y Cynghorydd(wyr)
M B Lewis

Y Cynghorydd(wyr)
L G Thomas

Cynrychiolydd Cyngor Cymuned/Tref
C Rabaiotti

Aelodau
Cyfetholedig(wyr)
Janet Pardue-Wood

Aelodau
Cyfetholedig(wyr)
Mark Rees

Swyddog(ion)
Allison Lowe
Debbie Smith

Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd
Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol

Ymddiheuriadau am absenoldeb
Aelodau Cyfetholedig(wyr): Margaret Williams

38 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorwyr O G James a L G Thomas gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 40 "Apêl Polisi Ymddygiad Afresymol Cwsmeriaid" a gadawodd y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei thrafod.

39 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes/eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

Penderfynwyd y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

(Sesiwn Gaeëdig)

40 Apelio'r Polisi Ymddygiad Afresymol gan Gwsmeriaid.

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad ar ran y Swyddog Monitro i ystyried apêl o dan y Polisi Ymddygiad Afresymol Cwsmeriaid.

Gofynnodd y Pwyllgor sawl cwestiwn mewn perthynas â'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiadau gerbron y Pwyllgor. Nid oedd y manylion angenrheidiol i ateb y cwestiynau wedi'u cynnwys yn y pecyn agenda. O ganlyniad, teimlai'r Pwyllgor na allai wneud penderfyniad hyd nes y byddai'r wybodaeth ysgrifenedig honno wedi dod i law.

Penderfynwyd:

- 1) bod y Pwyllgor yn gofyn am ragor o fanylion ysgrifenedig gan y swyddogion perthnasol;
- 2) bod y cyfarfod yn cael ei aildrefnu ar gyfer dyddiad yn y dyfodol agos.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.32 am

Cadeirydd